# SGILIAU BYWYD, SGILIAU BYW.

**22 HYDREF 2019**

Awduron:
***Pwyllgor Sgiliau Bywyd yn y Cwricwlwm, Senedd Ieuenctid Cymru***

# AELODAU'R PWYLLGOR

GRACE LOUISE BARTON

FINLAY BERTRAM

TOMMY CHURCH

JONATHON DAWES

HARRISON JAMES GARDNER

ELEANOR LEWIS

RHYS LEWIS

LLOYD MANN

ELLIE MURPHY

CAI THOMAS PHILLIPS

JONATHAN POWELL

GWION RHISIART

BETSAN ANGELL ROBERTS

RUTH SIBAYAN

# PWY YDYN NI?

## ROEDD 2018 YN FLWYDDYN BWYSIG I BOBL IFANC YNG NGHYMRU WRTH IDDYN NHW ETHOL SENEDD IEUENCTID GYNTAF CYMRU.

Cafodd 60 ohonon ni ein hethol dros gyfnod o dair wythnos ym mis Tachwedd 2018. Mae 40 aelod yn cynrychioli etholaethau yng Nghymru ac mae 20 aelod wedi eu hethol gan sefydliadau sy'n bartneriaid i Senedd Ieuenctid Cymru. Mae'r sefydliadau hynny'n cynnwys 13 o elusennau a sefydliadau sy'n gweithio gydag amrywiaeth o bobl ifanc yng Nghymru.

Yn ystod yr ychydig fisoedd cyntaf, roedd pobl ifanc o bob rhan o Gymru yn dweud wrthyn ni pa bethau oedd yn bwysig iddyn nhw. Cafodd y rhain eu grwpio o dan 21 categori a oedd yn amrywio o'r Gymraeg a Diwylliant Cymru, i Gefnogi Pobl Ifanc yng Nghymru. Roedd dod at ein gilydd am y tro cyntaf ym mis Chwefror 2019 yn brofiad na wnawn ni fyth mo'i anghofio. Yn Siambr y Senedd bu pob un ohonon ni'n siarad ar y materion yr oedd angen mynd i'r afael â nhw fwyaf, yn ein barn ni. Ar ddiwedd y sesiwn gwnaeth pob un ohonon ni bleidleisio ar y tri phrif fater yr oedden ni eisiau rhoi sylw iddyn nhw yn ystod ein tymor o ddwy flynedd. Y materion hynny oedd:

- ***Cymorth Iechyd Emosiynol ac Iechyd Meddwl***
- ***Sbwriel a Gwastraff Plastig***
- ***Sgiliau Bywyd yn y Cwricwlwm***

Yn dilyn y bleidlais, cawsom gyfle i ddewis pa fater yr oedden ni am weithio arno. Ers hynny mae 14 ohonon ni wedi eistedd ar y Pwyllgor Sgiliau Bywyd yn y Cwricwlwm.

Mae Senedd Ieuenctid Cymru yn rhoi pobl ifanc ar y blaen o ran dylanwadu a gwneud penderfyniadau yng Nghymru – a dyna fel y dylai hi fod.

# ANGEN NEWID

## MAE SGILIAU BYWYD YN BWYSIG I NI GAN EI BOD YN AMLWG BOD EIN CWRICWLWM YN BRIN OHONYN NHW.

Mae'r sgiliau y mae angen i bobl ifanc eu datblygu i fod yn ddinasyddion cyfrifol, ac yn rhan o'r byd yn grwn, yn hanfodol i'w haddysg. Maen nhw'n cynnwys pethau fel addysg ariannol, addysgu am werth arian,  gwybodaeth am faterion ariannol fel chwyddiant, morgeisi a threthi, a gwersi amrywiaeth a chynhwysiant. Rydyn ni'n credu ei bod yn drosedd amddifadu pobl ifanc o'r hawl hon.

Ar hyn o bryd rydyn ni'n gadael yr ysgol gyda llond llaw o sgiliau ond dim gwybodaeth am sut i siarad yn gyhoeddus, glanhau, cynnal perthnasoedd iach, prynu ceir, gwneud cais am forgeisiau, diogelwch ar y ffyrdd, a llawer o sgiliau eraill sydd eu hangen i lwyddo mewn bywyd.

Allwn ni ddim goroesi fel oedolion nac yn unrhyw ran o'n bywydau os byddwn ni'n gadael yr ysgol fel robotiaid A* heb wybod dim am y byd go iawn. Dyma'r system addysg rydyn ni'n mynd drwyddi, dyma'r system addysg y bydd ein brodyr a'n chwiorydd a'n plant yn mynd drwyddi. Rydyn ni am iddyn nhw deimlo eu bod nhw'n gallu gweithredu fel oedolion cynhyrchiol; dydyn ni ddim am i neb deimlo bod eu gwerth yn seiliedig ar ganlyniadau eu harholiadau. Rydyn ni'n werth mwy na hynny.

Os bydd sgiliau bywyd yn cael eu rhoi ar waith yn briodol yn y cwricwlwm, bydd y genhedlaeth nesaf o ddisgyblion yn gadael yr ysgol gyda mwy na'r cymwysterau cywir i lwyddo mewn bywyd; bydd ganddyn nhw hefyd sgiliau a gwybodaeth o fath arall i wneud bywyd yn haws. Mae'n bwysig i ni, fel pobl ifanc, gael addysg a fydd o fantais inni yn y dyfodol.




ALLAN
EXIT THIS WAY
CHLOE GILES

# YR YMGYNGHORIAD

**FEL AELODAU O'R PWYLLGOR SGILIAU BYWYD YN Y CWRICWLWM, MAE GENNYM NI FARN GREF AM YR HYN SYDD ANGEN EI NEWID O FEWN Y SYSTEM ADDYSG, A RHAN O'N GWAITH NI YW LLEISIO'R SAFBWYNTIAU HYNNY AR LEFEL GENEDLAETHOL.**

Fodd bynnag, rhan arall o'n gwaith yw rhoi llwyfan i leisiau pobl ifanc eraill yng Nghymru, gan eu bod hwythau hefyd yn teimlo'n gryf bod Sgiliau Bywyd yn y Cwricwlwm yn fater a oedd angen ein sylw.

Yn ein cyfarfodydd rhanbarthol, buon ni'n gweithio o fewn ein pwyllgorau i lunio dull o ymgynghori. Cawsom wybodaeth gan Wasanaeth Ymchwil y Cynulliad am y gwaith a oedd eisoes wedi'i wneud, a hefyd, wrth gwrs, y wybodaeth ddiweddaraf am y cwricwlwm newydd gan Lywodraeth Cymru. Mae cyflwyno cwricwlwm newydd sbon i Gymru sy'n canolbwyntio ar ddatblygu disgyblion gwybodus, iach a chyflawn, yn gyffrous, ac roedd ein hymgynghoriad yn cyd-daro ag ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar y Cwricwlwm drafft.

Er mwyn osgoi unrhyw ddyblygu neu ddryswch rhwng ein hymgynghoriad ni ag un Llywodraeth Cymru, fe wnaethon ni benderfynu y byddai ein hymgynghoriad yn canolbwyntio ar greu darlun o'r sgiliau bywyd sydd eisoes yn cael eu haddysgu yng Nghymru ar hyn o bryd, y ffordd yr oedden nhw'n cael eu haddysgu, a hefyd farn pobl ifanc am y sefyllfa. Byddai'r darlun hwn o'r ddarpariaeth bresennol yn gyfle inni weld unrhyw anghysondebau, yn ogystal ag enghreifftiau o arfer da. Fe fydden ni wedyn yn gallu creu argymhellion a fyddai, gobeithio, yn helpu i lunio'r cwricwlwm newydd ar gyfer Cymru.

Fe wnaethon ni gynnal dau arolwg – un ar gyfer pobl ifanc rhwng 11 a 25 oed, ac un arall ar gyfer oedolion, a oedd yn cynnwys rhieni, athrawon, gweithwyr ieuenctid, a gweithwyr addysg proffesiynol. Fe wnaethon ni hefyd gwrdd â phobl ifanc, athrawon a gweithwyr ieuenctid yn ein digwyddiadau ymgynghori yn Wrecsam ac Abertawe a buon ni'n cynnal grwpiau ffocws gyda phobl ifanc ac athrawon o bob rhan o Gymru yn ystod yr haf i ymchwilio'n ddyfnach i'w barn nhw ar y mater.

# LLYGEDYN O OBAITH

***O YSTYRIED YR ANSICRWYDD PRESENNOL YNGHYLCH GWLEIDYDDIAETH Y DU A'R BYD, MAE'R ADRODDIAD HWN YN HYNOD BWYSIG OHERWYDD BYDD LLEISIAU POBL IFANC YNG NGHYMRU, GOBEITHIO, YN TORRI DRWY'R TENSIWN GWLEIDYDDOL AC YN DARPARU LLWYFAN I'N LLEISIAU GAEL EU CLYWED UWCHLAW'R SŴN.***

Mae'n dangos sut mae democratiaeth yn cynyddu yng Nghymru ac yn dangos bod gan bobl ifanc lais. Mae'n dangos ymroddiad ac ymrwymiad Senedd Ieuenctid Cymru i gael effaith gadarnhaol ar fywydau pobl ifanc. Mae'n dangos mai pobl ifanc sy'n gwybod beth sydd orau i bobl ifanc a bod y gallu gennym ni i gael effaith.

Mae'r adroddiad hwn yn berthnasol, yn amrywiol, ac yn cynrychioli amrywiaeth o safbwyntiau gan bobl ledled Cymru. Os bydd ein hargymhellion yn cael eu derbyn, mae yma botensial i newid bywydau pobl ifanc ledled Cymru ac i adael gwaddol am flynyddoedd lawer.

Pan fydd yr adroddiad wedi'i gyhoeddi, rydyn ni'n gobeithio y bydd gwleidyddion yn dilyn y cyngor sydd ynddo ac yn cymryd camau ymarferol i bontio'r bylchau mawr o fewn sgiliau bywyd mewn ysgolion ar hyn o bryd. Rydyn ni'n awyddus i weld gwleidyddion yn cyfeirio'n agos at yr adroddiad i ddiwygio Cwricwlwm Cymru ac ymgorffori'r sgiliau bywyd hanfodol y mae pobl ifanc a gweithwyr proffesiynol addysg yn gofyn cymaint amdanyn nhw.

Mae'n fraint cael bod yn rhan o'r adroddiad cyntaf. Bydd hwn yn sylfaen i lawer o adroddiadau eraill yn y dyfodol.


Your Assembly


15:58:06
CASEY-JANE BISHOP

# CANFYDDIADAU'R YMGYNGHORIAD

Roedd canfyddiadau ein hymgynghoriad yn rhannu'n naturiol yn bedair thema;

1. ***Profiadau a dulliau addysgu ar hyn o bryd***
2. ***Pa mor aml y mae Sgiliau Bywyd yn cael eu haddysgu***
3. ***Pwy ddylai fod yn addysgu Sgiliau Bywyd mewn ysgolion***
4. ***Taro cydbwysedd rhwng Sgiliau Bywyd ac arholiadau***

Rhoddwyd cyfle i holl aelodau Senedd Ieuenctid Cymru ddadansoddi a thrafod y canlyniadau yn y cyfarfodydd rhanbarthol diwethaf, ac fe wnaethon nhw argymhellion inni fel Pwyllgor eu hystyried. Fe wnaethon ni fel aelodau'r Pwyllgor lunio a phleidleisio ar yr argymhellion terfynol. Mae'r rheini'n cael eu cyflwyno ar ddiwedd yr adroddiad hwn.

Yn yr adran nesaf fe welwch y prif ganfyddiadau o dan bob thema, ac yna argymhellion terfynol ein Pwyllgor.



# 1.

# PROFIADADAU A DULLIAU ADDYSGU AR HYN O BRYD

**PWRPAS Y SET GYNTAF O GWESTIYNAU YN EIN HOLIADURON OEDD CAEL DARLUN O'R PYNCIAU SGILIAU BYWYD A ADDYSGIR AR HYN O BRYD MEWN YSGOLION UWCHRADD A CHOLEGAU LEDLED CYMRU.**

Gofynnwyd i bobl ifanc pa sgiliau bywyd yr oedden nhw wedi'u dysgu hyd at 18 oed. Roedd y canlyniadau'n anghyson iawn. Roedd rhai pynciau wedi cael eu haddysgu i fwyafrif helaeth y bobl ifanc (roedd 85 y cant o bobl ifanc wedi cael gwersi am Ddiogelwch ar y Rhyngrwyd, ac roedd 84 y cant wedi cael gwersi am Ymdrin â Bwlio). Ar y llaw arall, dim ond i leiafrif yr oedd pynciau eraill wedi cael eu haddysgu; roedd y rheini'n cynnwys Ymdrin â Galar (12 y cant), Iaith Arwyddion (11 y cant) ac Addysg Wleidyddol (10 y cant).

Doedden ni'n synnu dim pam glywsom am y canlyniadau hyn. Mae llawer ohonon ni wedi cael gwersi am Ddiogelwch ar y Rhyngrwyd fwy nag unwaith, ac rydyn ni'n cytuno bod y canlyniadau hyn yn dangos bod gormod o bwyslais yn cael ei roi ar rai pynciau. Roedden ni'n siomedig iawn o glywed mai ychydig iawn o bobl ifanc oedd yn cael gwersi Addysg Wleidyddol, sy'n frawychus o ystyried y gallai pobl ifanc yng Nghymru fod yn gymwys i bleidleisio yn 16 oed cyn bo hir. Rydyn ni'n teimlo bod hyn yn adlewyrchu'r diffyg hyder sydd gan athrawon ac ysgolion yn gyffredinol wrth addysgu'r pwnc.

Yn dilyn y cwestiwn hwn, gofynnwyd i bobl ifanc ac oedolion pa sgiliau bywyd yr oedden nhw credu ddylai gael eu haddysgu i bobl ifanc. Y pynciau pwysicaf i bobl ifanc oedd Achub Bywyd (74 y cant) ac Ymdrin â Straen (73 y cant), a'r pynciau pwysicaf i oedolion oedd Diogelwch ar y Rhyngrwyd (84 y cant) ac Addysg Rhyw – Perthnasoedd Iach (84 y cant). Roedden ni'n falch iawn o glywed bod cymaint o alw am Achub Bywyd, gan ei fod yn fater y mae llawer ohonon ni'n teimlo'n gryf iawn amdano. Un arall o'r materion y mae Senedd Ieuenctid Cymru yn rhoi sylw iddo yw Cymorth Iechyd Emosiynol ac Iechyd Meddwl, ac nid oedd yn syndod deall bod hwn hefyd yn fater sy'n bwysig i lawer o bobl ifanc eraill ledled Cymru.

Trwy gymharu'r gwersi y mae pobl ifanc yn eu cael gyda'r hyn y maen nhw'n credu y dylen nhw eu cael, daeth yn amlwg nad yw pobl ifanc yn cael eu haddysgu am y pynciau sy'n bwysig iddyn nhw. Mae hyn yn dangos yn glir i ni y dylai ysgolion a'r Llywodraeth wrando mwy ar bobl ifanc wrth wneud penderfyniadau am eu haddysg.

Yna, fe wnaethon ni ofyn i bobl ifanc ac oedolion a oedden nhw'n cytuno bod ysgolion yn paratoi pobl ifanc yn ddigon da ar gyfer bywyd fel oedolion. Roedd y canlyniadau'n amrywio; reodd 60 y cant o bobl ifanc yn cytuno o gymharu â dim ond 28 y cant o oedolion. Roedden ni'n synnu'n fawr o glywed bod cymaint o bobl ifanc yn cytuno â'r datganiad hwn o ystyried yr anghysondebau a ddaeth yn amlwg mewn cwestiynau blaenorol. Roedd hyn efallai yn adlewyrchu'r ffaith bod y gwersi y maen nhw'n eu cael o ansawdd da, ond eu bod nhw am weld mwy ohonyn nhw. Hefyd, fe wnaethon ni nodi nad oedd gan bobl ifanc o reidrwydd y ddealltwriaeth o fywyd fel oedolyn i allu ateb y cwestiwn hwn yn effeithiol, ac efallai mai dyna'r rheswm am y bwlch rhwng barn pobl ifanc a barn oedolion.

Cafodd dau argymhelliad eu gwneud lawer gwaith mewn grwpiau ffocws. Yn gyntaf, soniwyd bod angen manyleb genedlaethol ar gyfer Sgiliau Bywyd sy'n amlinellu'r hyn y dylai ysgolion fod yn ei addysgu. Yn ail, argymhellwyd y dylai ysgolion benodi cydgysylltwyr Sgiliau Bywyd i sicrhau bod pob person ifanc yn cael addysg o'r un ansawdd ym maes Sgiliau Bywyd yn ystod eu cyfnod ym myd addysg. Rydyn ni fel Pwyllgor yn cytuno y byddai'r argymhellion hyn yn helpu i ddatrys llawer o'r anghysondebau a ddaeth i'r amlwg o fewn y thema hon.

# 2.

# PA MOR AML Y MAE SGILIAU BYWYD YN CAEL EU HADDYSGU

***ROEDD EIN HAIL SET O GWESTIYNAU YN YR HOLIADUR YN YSTYRIED PA MOR AML YR OEDD POBL IFANC YN CAEL GWERSI SGILIAU BYWYD MEWN YSGOLION A CHOLEGAU.***

Cymysg oedd y canlyniadau, ac roedd yr atebion yn anghyson sy'n dangos nad ydi ysgolion Cymru yn addysgu Sgiliau Bywyd yn yr un modd. Fodd bynnag, roedd yn loes calon i ni – er nad oedden ni'n synnu chwaith – fod 48 y cant o bobl ifanc wedi nodi mai dim ond unwaith y flwyddyn neu lai (neu ddim yn gwybod) yr oedden nhw'n cael gwersi Sgiliau Bywyd.

Ar y llaw arall, roedd y galw am wersi sgiliau bywyd rheolaidd yn glir; roedd 72 y cant o bobl ifanc eisiau'r gwersi unwaith bob pythefnos neu'n amlach, ac roedd 88 y cant o oedolion yn dweud yr un peth. Fe wnaethon ni gymharu canlyniadau'r cwestiwn hwn â chanlyniadau'r cwestiwn cyntaf, ac roedd yn dipyn o sioc inni sylweddoli mai dim ond chwarter y bobl ifanc oedd yn cael gwersi Sgiliau Bywyd mor aml ag y dylen nhw fod, yn eu barn nhw.

Fe wnaethon ni hefyd edrych ar y dystiolaeth yn y trafodaethau grŵp ffocws am y rhesymau posibl pam nad yw gwersi Sgiliau Bywyd ar gael yn aml mewn ysgolion. Roedd un sgwrs yn y grwpiau ffocws yn awgrymu fod Sgiliau Bywyd ar hyn o bryd yn cael eu stwffio i'r diwrnodau ABCh pwrpasol mewn ysgolion. Roedd llawer ohonon ni ar y Pwyllgor wedi cael profiad o'r diwrnodau ABCh, ac rydyn ni'n credu nad ydyn nhw'n cael eu cymryd o ddifrif – mae disgyblion yn ystyried y dyddiau hyn fel 'diwrnodau i ffwrdd'.

Fel Pwyllgor, buon ni'n trafod dau ateb posibl i ddiwallu'r galw mawr am wersi Sgiliau Bywyd aml.

Yn gyntaf, rydyn ni'n teimlo y dylid stopio addysgu Sgiliau Bywyd ar y diwrnodau ABCh pwrpasol, ac y dylai gwersi Sgiliau Bywyd fod ar yr amserlen o leiaf unwaith bob pythefnos. Byddai hyn yn sicrhau cysondeb ac amlder a phe bydden nhw'n cael eu cynnwys ar yr amserlenni rheolaidd, byddai'n hawdd i ysgolion drefnu i sefydliadau allanol ddod i'r ysgol i gyflwyno pynciau penodol i grwpiau blwyddyn. Buon ni'n ystyried yr heriau fyddai'n codi gyda'r opsiwn hwn – yn bennaf y ffaith y byddai rhoi gwers ar yr amserlen yn golygu llai o amser i bynciau eraill. Fodd bynnag, gan fod y galw am wersi bob pythefnos mor uchel, mae'n rhaid blaenoriaethu hyn.

Yn ail, fe wnaethon ni ystyried argymhelliad a gododd yn rheolaidd mewn grwpiau ffocws, sef addysgu Sgiliau Bywyd drwy eu hymgorffori mewn pynciau eraill. Mae hyn yn cynnwys Addysg Ariannol o fewn Mathemateg, Addysg Rhyw o fewn Bioleg ac ati. O ystyried natur y cwricwlwm newydd ar gyfer Cymru, rydyn ni'n teimlo y byddai hyn yn opsiwn pendant. Mae yna lawer o heriau, wrth gwrs, gyda'r dull hwn. Rydyn ni'n poeni y bydd athrawon yn parhau i roi'r flaenoriaeth i addysgu eu pynciau eu hunain yn hytrach na Sgiliau Bywyd oherwydd y gofynion sydd arnyn nhw o ran y cwricwlwm ac arholiadau. Ein pryder arall yw efallai na fyddai pobl ifanc yn sylweddoli mai Sgiliau Bywyd, mewn gwirionedd, yw'r gwersi y maen nhw'n eu cael o fewn pynciau eraill. Allan o'u cyd-destun, efallai na fydd y gwersi hyn yn effeithiol.

Ein hawgrym ni, yn yr achos hwn, yw bod ysgolion yn mabwysiadu logo Sgiliau Bywyd er mwyn dangos yn glir pryd y mae'r gwersi hyn yn cael eu haddysgu ar draws y cwricwlwm. Mae hyn, unwaith eto, yn cefnogi'r galw am benodi cydgysyltydd Sgiliau Bywyd mewn ysgolion i ddangos ym mhle yn union y mae'r sgiliau hynny'n cael eu haddysgu. Gallai ysgolion hefyd gynnal sesiynau myfyriol bob mis er mwyn i bobl ifanc ystyried y sgiliau y maen nhw wedi'u cael mewn gwahanol bynciau.

# 3.

# PWY DDYLAI FOD YN ADDYSGU SGILIAU BYWYD MEWN YSGOLION

**DRWY GYFRWNG SET ARALL O GWESTIYNAU YN EIN HOLIADUR, ROEDDEN NI'N CASGLU GWYBODAETH YNGHYLCH PWY SY'N DYSGU GWERSI SGILIAU BYWYD MEWN YSGOLION A CHOLEGAU.**

Dangosodd y canlyniadau nad oedd mwyafrif clir ar gyfer unrhyw opsiwn, gyda'r gwersi yn cael eu cyflwyno gan gymysgedd o athrawon dosbarth, athrawon amrywiol, athrawon sy'n arbenigo yn y pynciau dan sylw, a staff allanol.

Mae'r canlyniadau hyn unwaith eto'n dangos pa mor anghyson yw'r profiadau y mae pobl ifanc yn eu cael ledled Cymru. Fel Pwyllgor, roedden ni'n siomedig mai dim ond 25 y cant oedd wedi cael gwersi gan arbenigwyr allanol. Rydyn ni'n credu y gall arbenigwyr allanol gyflwyno sesiynau gafaelgar, ffres a chraff yn seiliedig ar eu harbenigedd, ac y byddai pobl ifanc yn elwa'n fawr o'r rheini. Mae llawer o'r sefydliadau allanol hyn yn cynnig sesiynau am ddim i ysgolion, colegau a grwpiau ieuenctid. Rydyn ni hefyd yn credu, er mwyn cwrdd â galw pobl ifanc am wersi Sgiliau Bywyd unwaith bob pythefnos, bod yn rhaid i athrawon fod â rhan yn yr addysgu. Fodd bynnag, fe glywson ni farn athrawon mewn arolygon a grwpiau ffocws, ac roedd digon i'w drafod.

Yn yr holiadur, fe wnaethon ni ofyn yn benodol i athrawon a oedden nhw'n teimlo bod ganddyn nhw'r sgiliau a'r profiad angenrheidiol i addysgu sgiliau bywyd, ac roedd y canlyniadau'n gymysg unwaith eto. Roedd 44 y cant yn cytuno, 33 y cant yn anghytuno a'r gweddill ddim yn cytuno nac yn anghytuno. Roedden ni'n bryderus iawn bod llai na hanner yr athrawon a atebodd y cwestiwn yn dweud na fydden nhw'n teimlo'n gyffyrddus i gyflwyno'r gwersi. Efallai bod hyn yn esbonio pam bod cyn lleied o Sgiliau Bywyd yn cael eu haddysgu ar hyn o bryd.

Mynegodd athrawon eu barn mewn grwpiau ffocws, gyda llawer ohonyn nhw'n dweud mai eu prif bryder oedd gwneud anghymwynas â phobl ifanc, peidio â bod ar yr un donfedd â nhw, a chael pethau'n anghywir. Fe wnaethon ni drafod rhai atebion fyddai'n sicrhau bod athrawon yn teimlo eu bod yn barod i addysgu'r gwersi. Rydyn ni'n cytuno ag argymhelliad a wnaed gan athrawon mewn grwpiau ffocws y dylid buddsoddi mewn hyfforddiant athrawon i sicrhau eu bod yn hyderus i addysgu'r gwersi. Byddai hyn yn sicrhau y byddai'r holl athrawon sydd newydd gymhwyso yn addasu'n naturiol i addysgu Sgiliau Bywyd fel rhan o'u gwaith o ddydd i ddydd. Rydyn ni hefyd yn credu y dylai adnoddau fod wrth law i ysgolion i helpu athrawon i addysgu'r gwersi hyn yn effeithiol. Dylai'r gronfa adnoddau ganolog hon gael ei llunio gan Lywodraeth Cymru a dylai fod yn gyfredol, yn berthnasol, ac yn hawdd i ysgolion ledled Cymru ei defnyddio.

Ar y cyfan, rydyn ni'n teimlo bod angen cysondeb, ac er mwyn diwallu'r galw mawr am wersi Sgiliau Bywyd, dylai ysgolion ddefnyddio sefydliadau allanol arbenigol yn ogystal ag ymgorffori gwersi Sgiliau Bywyd yn rheolaidd o fewn amserlen yr ysgol ac ar draws y cwricwlwm. Dylid defnyddio sefydliadau allanol i addysgu pynciau sensitif sydd angen dealltwriaeth a phrofiad personol i gael eu haddysgu'n effeithiol. Gellid defnyddio sefydliadau allanol ar gyfer pynciau fel Gwleidyddiaeth hefyd, y mae angen iddyn nhw gael eu cyflwyno'n ddiduedd. Rydyn ni wedi deall gan yr athrawon a atebodd ein cwestiynau bod angen buddsoddi yn eu datblygiad i sicrhau bod ganddyn nhw'r offer cywir i gyflwyno'r sesiynau'n effeithiol a gwneud cyfiawnder â phobl ifanc.

# 4.

# TARO CYDBWYSEDD RHWNG SGILIAU BYWYD AC ARHOLIADAU

**YN EIN HOLIADUORON A'N GRWPIAU FFOCWS, ROEDD UN THEMA GYSON – YR ANGEN I SICRHAU CYDBWYSEDD RHWNG ADDYSGU SGILIAU BYWYD A PHARATOI POBL IFANC AR GYFER ARHOLIADAU.**

Dywedodd athrawon a phobl ifanc fel ei gilydd mai un o'r prif resymau dros brinder y gwersi Sgiliau Bywyd oedd y pwysau ar ysgolion ac athrawon i gael canlyniadau o ran arholiadau.

Yn yr holiadur, fe wnaethon ni holi pobl ifanc ac athrawon a oedden nhw'n teimlo bod addysgu sgiliau bywyd yn cael ei flaenoriaethu'n briodol mewn ysgolion. Dim ond 43 y cant o bobl ifanc a gytunodd, a dim ond 11 y cant o oedolion. Wrth drafod y ffigurau hyn, roedden ni'n teimlo bod canran y bobl ifanc yn rhyfeddol o uchel o gymharu â'n profiadau ni. Rydyn ni'n teimlo bod ysgolion yn adweithiol iawn ar hyn o bryd wrth addysgu sgiliau bywyd. Er enghraifft, byddai llawer o strategaethau cymorth yn cael eu rhoi ar waith ar ôl i achos difrifol ddigwydd.

Fe wnaethon ni ystyried barn llawer o athrawon mewn grwpiau ffocws a gyfeiriodd at y diffyg blaenoriaeth sy'n cael ei roi i addysgu Sgiliau Bywyd. Roedd llawer ohonyn nhw'n canolbwyntio ar y pwyslais mawr sy'n cael ei roi ar arholiadau. Dyma beth oedd gan un athro o Landudno i'w ddweud:

“Rydyn ni'n dal i weithio mewn system hen ffasiwn sy'n addysgu disgyblion sut i lwyddo mewn arholiadau yn hytrach na'u paratoi nhw ar gyfer bywyd go iawn. ”

Rydyn ni fel Pwyllgor yn deall beth sydd wrth wraidd y sylw hwn, ac yn cael braw o feddwl y bydd cyfrifiaduron a robotiaid wedi cael eu datblygu ymhen rhai blynyddoedd i allu gwneud popeth y gallwn ni ei wneud. Rhaid i ysgolion wneud mwy i ddatblygu meddylwyr creadigol, arloesol a datblygu sgiliau heblaw rhai academaidd.

Soniodd athro arall nad ydi pobl ifanc yn cymryd y gwersi Sgiliau Bywyd o ddifrif pan nad oes arholiad na chymhwyster ar y diwedd. Fe fydden ni'n casáu gweld buddsoddiad mawr mewn addysgu Sgiliau Bywyd dim ond i agweddau pobl ifanc aros yr un fath. Buon ni fel Pwyllgor yn trafod ateb posibl, sef datblygu cymhwyster neu dystysgrif Sgiliau Bywyd i'w dyfarnu i bobl ifanc pan fydden nhw'n gadael yr ysgol yn 16 oed. Soniwyd lawer gwaith am Fagloriaeth Cymru yn ystod y drafodaeth hon, ac er bod y cymhwyster hwn mewn egwyddor yn dystysgrif sgiliau sy'n anelu at wneud yr hyn yr ydyn ni'n ei argymell, nid yw hwn, yn ein barn ni, yn cyrraedd ei nod yn llwyddiannus.

Mewn grwpiau ffocws, fe wnaethon ni ofyn i bobl ifanc fwrw pleidlais i ddweud beth oedd bwysicaf – ai dysgu pobl ifanc i basio arholiadau ynteu addysgu Sgiliau Bywyd? Fe wnaeth y canlyniadau ein synnu, gan mai dim ond 38 y cant oedd yn credu bod addysgu sgiliau bywyd yn bwysicach; roedd 29 y cant yn anghytuno, ac roedd y gweddill yn credu bod y ddau mor bwysig â'i gilydd. Dywedodd sawl person ifanc fod hwn yn gwestiwn anodd i'w ateb, gan fod cymaint o bwysau yn cael ei roi arnyn nhw i lwyddo mewn arholiadau, a hyd nes y bydd newid mewn diwylliant a llai o bwysau yn cael ei roi ar ysgolion i sicrhau canlyniadau arholiadau, roedd y ddau mor bwysig â'i gilydd.

Fel Pwyllgor rydyn ni'n teimlo'n gryf bod angen i Lywodraeth Cymru ac Estyn ailystyried y ffordd y mae ysgolion yn cael eu barnu, gyda llawer llai o ffocws ar ganlyniadau arholiadau, a llawer mwy o bwyslais ar les disgyblion a datblygu pobl ifanc fel unigolion.

Fodd bynnag, fe wnaeth pobl a gymerodd ran yn y grwpiau ffocws sylwadau ar y ffaith ei bod yn anodd ateb y cwestiwn o gofio bod cymaint o bwyslais yn cael ei roi ar arholiadau, a bod y ddwy elfen yn bwysig.

# EIN HARGYMHELLION



**01.** Dylid cyflwyno Manyleb Sgiliau Bywyd cyson dros Gymru gyfan, sy'n cynnwys yr holl sgiliau bywyd craidd wedi'u mapio ar draws y cyfnodau allweddol priodol ac sy'n ystyried unrhyw anghenion dysgu.

**02.** Dylai pobl ifanc a gweithwyr addysg proffesiynol gytuno ar y sgiliau bywyd craidd yn y fanyleb – ni ddylen nhw ganolbwyntio ar addysgu pobl ifanc sut i fodoli'n unig, ond sut i fyw bywydau llawn ac iach.

**03.** Dylid penodi cydgysylltydd sgiliau bywyd ym mhob ysgol. Byddai'r cydgysylltydd yn gyfrifol am fapio'r sgiliau bywyd craidd ar draws cwricwlwm yr ysgol, gan sicrhau bod pob disgybl yn cael yr un profiadau, a hynny'n unol â'r Fanyleb Sgiliau Bywyd.

**04.** Dylid penodi Comisiynydd Sgiliau Bywyd cenedlaethol i sicrhau bod ysgolion yn cyrraedd y safonau gofynnol a bod pob person ifanc yn holl ysgolion Cymru yn cael yr un profiadau.

**05.** Dylid dysgu gwers benodol ar sgiliau bywyd unwaith bob pythefnos ym mhob ysgol, ond dylid cynnwys sgiliau bywyd mewn pynciau eraill hefyd pan fo hynny'n berthnasol.

**06.** Dylai pob gwers sy'n canolbwyntio ar sgiliau bywyd gael ei nodi'n glir â'r logo sgiliau bywyd. Drwy hynny, bydd pobl ifanc yn gwybod pryd mae'r sgiliau'n cael eu haddysgu, a sut y byddan nhw'n berthnasol i'w bywydau fel oedolion.

**07.** Dylai ysgolion gynnal sesiynau adborth bob mis / hanner tymor, er mwyn medru adolygu ac ystyried y modd y maen nhw'n dysgu sgiliau bywyd.

**08.** Dylai'r gwersi fod yn rhyngweithiol a dylid addysgu sgiliau bywyd drwy weithdai sy'n cynnig hwyl a gweithgareddau cofiadwy yn hytrach na drwy sgyrsiau a llyfrau gwaith.

**09.** Dylai athrawon gymryd cyfrifoldeb am eu rolau fel addysgwyr sgiliau bywyd, ond rhaid buddsoddi yn eu hyfforddiant fel eu bod yn gallu cyflwyno'r gwersi'n hyderus – dylai hyn gynnwys rhan o gyrsiau hyfforddi athrawon, yn ogystal â darparu cyrsiau i'r holl athrawon presennol.

**10.** Dylai ysgolion barhau i ddefnyddio gweithwyr proffesiynol o sefydliadau allanol ac elusennau i addysgu'r pynciau mwy sensitif neu arbenigol, er mwyn iddyn nhw rannu eu profiadau eu hunain.

**11.** Dylai'r Llywodraeth weithio ar y cyd â Senedd Ieuenctid Cymru i greu adnoddau i ddatblygu pecyn cenedlaethol i sicrhau bod y gwersi'n gyson ledled Cymru.

**12.** Dylai Estyn a'r Llywodraeth ystyried gwahanol ddulliau o arolygu ysgolion – yn lle canolbwyntio'n ormodol ar ganlyniadau arholiadau, dylent roi mwy o sylw i strategaethau lles a chefnogaeth ysgolion a datblygiad pobl ifanc fel unigolion.

**13.** Dylid creu tystysgrif neu gymhwyster sgiliau bywyd craidd i'w ddyfarnu i bobl ifanc 16 oed.



# CYDNABYDDIAETHAU


LLEISIAU BACH

LYNNE NEAGLE AC

SIÂN GWENLLIAN AC

LLOYD HOPKIN

BROOK CYMRU

CHALLENGE WALES

DEFFO

INTERNATIONAL FULL CIRCLE

PRINCE'S TRUST

PROMO CYMRU

MEIC CYMRU

CARDIFF MEDITATION

STONEWALL CYMRU

TALK THE TALK

THE MULLANY FUND

WCADA

SYNIADAU MAWR CYMRU

HEDDLU GOGLEDD CYMRU

WREXHAM INFO SHOP

MENTER IAITH FFLINT

Y GROES GOCH

ADTRAC

BARCLAYS

SENEDD YR IFANC WRECSAM

GWE

NORTH WALES TRAINING

CYNGHORAU YSGOL DINBYCH

PEOPLE PLUS MERTHYR, ABERDÂR, PORT TALBOT

GOFALWYR IFANC PORT TALBOT

GRŴP LGBTQ+ PORT TALBOT

CYNGOR IEUENCTID PEN Y BONT AR OGWR

GRŴP IEUENCTID KPC Y PÎL

GYRFA CYMRU

DARPARIAETH INTEGREDIG I BOBL IFANC SIR Y FFLINT

GWASANAETH IEUENCTID CONWY

FLINT HIGH SCHOOL

YSGOL GLAN CLWYD

YSGOL MAES GARMON

PRESTATYN HIGH SCHOOL

ST JOHN THE BAPTIST SCHOOL

BISHOPSTON COMPREHENSIVE SCHOOL

CALDICOT SCHOOL

YSGOL GYFUN CWM RHYMNI

GOWERTON COMPREHENSIVE

YSGOL GYFUN GWYR

PENTREHAFOD SCHOOL

PONTARDDULAIS COMPREHENSIVE SCHOOL

PORTHCAWL COMPREHENSIVE SCHOOL

ABERDARE COMMUNITY SCHOOL